## <u>ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR I'R RHIENI 2022 -2023</u>
## <u>GOVERNORS' ANNUAL REPORT TO PARENTS 2022- 2023</u>

Braf iawn oedd dychwelyd i flwyddyn 'arferol' o addysgu yn YUT llynedd yn dilyn popeth a ddaeth yn sgil y pandemig mewn blynyddoedd blaenorol. Parhaodd disgyblion i 'ddal i fyny' ac roedd ysgolion yn dyfeisio dulliau a phrosesau i wneud hyn. Nid oedd YUT yn wahanol a daeth hyn â'i bwysau ei hun ar bob disgybl a staff ac yn anuniongyrchol, rhieni hefyd.

Roedd gor-wariant gyllidol o fewn y flwyddyn, ond llwyddwyd cynnal balansau sydd wedi ein galluogi i gyllidebu ar gyfer gwelliannau adnoddau ar gyfer 2023-2024. Mae'r Awdurdod Lleol wedi sicrhau arian gan Llywodraeth Cymru i'w wario ar raglen waith gwella adeiladau yn sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn mae'r ysgol wedi derbyn cefnogaeth 'ysgafn' gan GwE, yn ystod ein taith wella (hyd at 4 diwrnod o gefnogaeth gan y consortia rhanbarthol), sef y lefel isaf o gefnogaeth. Defnyddir ystod o wybodaeth i farnu lefel y cefnogaeth sydd ei angen: sut mae'r ysgol yn cael ei harwain a'i rheoli, ansawdd y dysgu a'r addysgu, lefelau presenoldeb, canlyniadau arholiadau ac ati.

Mae niferoedd dysgwyr wedi cynyddu'n iach, er bod hyn yn golygu heriau yn ei hun yn nhermau gofod addysgu digonol o fewn yr ysgol. Rhagwelir y bydd niferoedd yn aros yn gyson dros y blynyddoedd nesaf.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion wedi bod yn heriol, fel sydd wedi bod drwy'r wlad, gyda'n lefelau ychydig yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

It was extremely pleasing to return to a 'normal' year of education at YUT last year following the disruption caused by the pandemic in previous years. Pupils continued to play 'catch-up' and schools were devising methods and processes to do this. YUT was no different and this brought its own pressures upon all pupils, staff and indirectly, parents too.

There was an in-year budget overspend, but we succeeded to maintain a healthy carry-over which has enabled us to budget for further resource improvements for 2023-2024. The Local Authority has secured funding from Welsh Government to be spent on major buildings improvement programme.

During the year the school has received 'light touch' support from GwE, during its improvement journey (up to 4 days' support from their regional consortia), which is the lowest level of support. A range of information is used to judge the level of support needed: how the school is led and managed, the quality of learning and teaching, attendance levels, examination results etc.

Pupil numbers increased healthily, although this in itself brings challenges in terms of available teaching space within the school. Numbers are predicted to remain steady over the next number of years.

Pupil attendance levels remained a challenge, as was seen throughout the country, and our attendance was just above the national average.

**<u>Nifer Disgyblion</u>/<u>Pupil Numbers</u>**

| Blwyddyn/Year | **2022 - 2023** | **2023 - 2024** | **2024 - 2025** |
|---|---|---|---|
| 7 | 86 | 77 | 80 |
| 8 | 84 | 84 | 77 |
| 9 | 74 | 80 | 84 |
| 10 | 79 | 79 | 80 |
| 11 | 67 | 78 | 79 |
| **Cyfanswm/Total** | **390** | **398** | **400** |

*Llywodraethwyr yr ysgol 2022-2023 / School Governors 2022-2023 Ysgol Uwchradd Tywyn*

| *Enw*<br>*Name* | *Dyddiad olaf*<br>*End Date* | *Categori* | *Category* |
|---|---|---|---|
| HUGHES, Cyng. Louise | 31/08/2026 | Awdurdod Addysg | Education Authority |
| LLOYD-JONES, Cyng. Anne | 31/08/2026 | Awdurdod Addysg | Education Authority |
| OWEN, Cyng Robert Dewi | 31/08/2026 | Awdurdod Addysg | Education Authority |
| PUGH, Cyng John | 31/08/2026 | Awdurdod Addysg | Education Authority |
| PIERCE, Richard Arwel | 31/08/2024 | Cymuned | Community |
| ARCH, David | 31/08/2024 | Cymuned | Community |
| MURFIN, Jeremy | 31/08/2025 | Cymuned | Community |
| TRONET, Anne-Sophie | 31/08/2026 | Athrawes | Teacher |
| BYRNE, Jane | 31/04/2026 | Athrawes | Teacher |
| EVANS, Nona | 31/08/2026 | Staff Ategol | Ancillary Staff |
| WILLIAMS, Anwen | 31/08/2024 | Rhiant | Parent |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| FOWLES, Carys | 07855 605471 | 31/08/2026 | Rhiant | Parent |
| LEWIS, Helen | 01654 710099 | 31/08/2027 | Cymuned | Community |
| COOLING, Matthew | 07888 024742 | | Clerc | Clerk |

School Overview Report — Ysgol Uwchradd Tywyn

## Year 11 (2022/2023) Canlyniadau Bl 11 2022_23

All Pupils







| | All (65) | | Boys (36) | | Girls (29) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | # | % | # | % | # | % |
| 5 A* to A | 15 | 23.08 | 7 | 19.44 | 8 | 27.59 |
| 3 A* to A | 22 | 33.85 | 10 | 27.78 | 12 | 41.38 |
| 5 A* to B | 29 | 44.62 | 14 | 38.89 | 15 | 51.72 |
| 5 A* to C [En+Ma] | 35 | 53.85 | 16 | 44.44 | 19 | 65.52 |
| 5 A* to C | 47 | 72.31 | 25 | 69.44 | 22 | 75.86 |
| 5 A* to D | 57 | 87.69 | 29 | 80.56 | 28 | 96.55 |
| 5 A* to G [En+Ma] | 63 | 96.92 | 35 | 97.22 | 28 | 96.55 |
| 5 A* to G | 65 | 100 | 36 | 100 | 29 | 100 |

| | All (65) | | Boys (36) | | Girls (29) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Pupil | Entry | Pupil | Entry | Pupil | Entry |
| APS | 405.37 | 41.11 | 383.83 | 39.2 | 432.1 | 43.44 |
| APS Capped | 371.62 | 41.83 | 357.36 | 40.02 | 389.31 | 44.1 |

* Pupil = Points Per Pupil, Entry = Points Per Entry

**Mesurau Perfformiad Newydd ar ddiwedd blwyddyn 11 o fis Medi 2019 (ac fe'i defnyddiwyd am y tro cyntaf ar gyfer arholiadau TGAU yn 2022 felly oherwydd Covid 19)**
O fis Medi 2019, cafodd system raddio ysgolion uwchradd traddodiadol y safon aur 'pum gradd A * i C' ei dileu gan Lywodraeth Cymru a'i disodli â sgôr pwyntiau, a elwir yn sgôr naw pwynt wedi'i gapio, sy'n cynnwys adrodd ar TGAU sydd nodi canlyniadau disgybl mewn llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth.

**Dyma sut mae'n gweithio**:

- Mae naw cymhwyster sy'n cyfrif yn y mesur hwn, tri slot sefydlog a chwe slot agored.
- Rhaid i'r slotiau sefydlog fod yn bwnc o feysydd llythrennedd, rhifedd a gwyddoniaeth.
- Slot llythrennedd - gall naill ai TGAU iaith Saesneg, Cymraeg neu'r arholiadau llenyddiaeth gyfrif
- Slot rhifedd - gall naill ai mathemateg TGAU neu fathemateg rhifedd TGAU gyfrif
- Slot gwyddoniaeth - mae unrhyw wyddoniaeth TGAU yn cyfrif (lle mae gan fyfyriwr ddyfarniad dwbl neu'r tair gwyddor ar wahân, mae'r radd orau yn cyfrif)

Gall y chwe slot sy'n weddill ddefnyddio TGAU na chawsant eu defnyddio yn y tri slot uchod neu gymwysterau cyfatebol, er enghraifft BTEC neu Dystysgrif Her sgiliau Bacc Cymru.

Dim ond y canlyniad cyntaf a ddyfernir ar gyfer pob myfyriwr sy'n cyfrif. Os yw myfyriwr wedi ail-sefyll arholiad ac wedi gwella ei radd, defnyddir y canlyniad cyntaf wrth gyfrifo mesur perfformiad ysgol, nid yr un olaf.

Cyfrifir y mesur ar gyfer pob myfyriwr - dyrennir pwyntiau i bob gradd ar raddfa symudol o A * i G. Mae sgôr cyfartalog yr holl fyfyrwyr yn rhoi sgôr cyfartalog yr ysgol
Felly byddai Gradd A * mewn TGAU yn derbyn 58 pwynt, byddai Gradd A yn derbyn 52 pwynt, byddai B yn derbyn 46 pwynt, a C 40 pwynt.

Y bwriad a'r nod yw rhoi mwy o ffocws ar godi ein dyheadau ar gyfer pob dysgwr. Mae'r mesurau newydd hyn yn cydnabod cyflawniad graddau uwch, yn ogystal ag ymdrechion disgyblion nad ydynt yn cyflawni'r radd C, gan gael gwared o’r ffocws cul ar ffin gradd C/D y mesurau blaenorol.

Mae’r mesurau newydd yn cynnwys y canlyniadau gorau mewn llythrennedd, rhifedd a TGAU gwyddoniaeth, yn ogystal â chanlyniadau gorau disgyblion ar gyfer chwe TGAU arall, neu gymwysterau cyfatebol, yn ychwanegol at sgôr pwyntiau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

**New Performance Measures at the end of year 11 from September 2019 (and therefore used for the first time for GCSE exams in 2022 because of Covid 19)**

From September 2019, the traditional secondary school rating system of the gold standard ‘five A* to C’ GCSE grades was scrapped by the Welsh Government and replaced with a points score, known as the capped nine points score, which includes reporting on GCSEs which indicate a pupil’s outcomes in literacy, numeracy and science.

**This is how it works:**

- There are nine qualifications that count in this measure, three fixed slots and six open slots.
- The fixed slots have to be a subject from the areas of literacy, numeracy and science.
- Literacy slot - either GCSE English language, Welsh language or the literature exams can count
- Numeracy slot - either GCSE maths or GCSE mathematics-numeracy can count
- Science slot – any science GCSE counts (where a student has a double award or the three separate sciences, the best grade counts)

The remaining six slots can use GCSEs that haven’t been used in the three slots above or equivalent qualifications, for example BTEC or the Welsh Bacc skills Challenge Certificate.

Only the first result that is awarded for each student counts. If a student has re-sat an exam and improved their grade it is the first one that is used in the school performance measure calculation, not the last one.

The measure is calculated for each student – points are allocated to each grade on a sliding scale from A* to G. All students’ scores in a school are then averaged to give the school score.

So a Grade A* at GCSE would receive 58 points, a Grade A would receive 52 points, a B would get 46 points, a C 40 points.

The intention and the aim is to place a greater focus on raising our aspirations for all learners. These new measures recognise the achievement of higher grades, as well as the efforts of pupils who do not achieve the C grade, removing the narrow focus on the C/D grade boundary of the previous measures.

The new measures include the best outcomes in literacy, numeracy and science GCSEs, as well as pupils’ best results for six other GCSEs, or equivalent approved qualifications, in addition to the Welsh Baccalaureate Skills Challenge Certificate points score.

**Blaenoriaethau Gwella 2022 - 2024**

- Parhau i ddatblygu'r Cwricwlwm Newydd
- Datblygu'r Iaith Gymraeg: Codi safonau yn y Gymraeg a gweithredu'r strategaeth Iaith ar lefel uwch
- Datblygu sgiliau darllen, ysgrifennu a llefaredd.
- Cryfhau prosesau arweinwyr canol yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu.
- Gwella presenoldeb plant bregus.

**Darpariaeth Addysg Gorfforol**

Yng nghyfnod allweddol 3, mae 3 gwers o 50 munud ym mlwyddyn 7 a blwyddyn 8, a 2 gwers ym mlwyddyn 9. Yng nghyfnod allweddol 4, mae 2 wers ym mlwyddyn 10 a 2 ym mlwyddyn 11.
Mae gan yr ysgol nifer o dimau llwyddiannus ac mae disgyblion a ddewiswyd ar gyfer y timau yn dangos lefelau priodol o ymrwymiad.

**Ymweliadau**

Braf oedd cael ail-afael ar weithgareddau ac ymweliadau, sydd yn sicr yn cyfoethogi'n fawr profiadau ein dysgwyr. Cafwyd nifer o ymweliadau, megis i Fwthyn Ogwen am wythnos o weithgareddau awyr agored i flynyddoedd 8 a 9. Cafwyd nifer fawr o gemau chwaraeon mewn ystod eang o gampau gwahanol, ac wrth gwrs y diwrnod Mabolgampau. Yr uchafbwynt yn sicr oedd Wythnos Cyfleoedd i orffen y flwyddyn gyda'r ysgol gyfan oddi ar amserlen arferol yn cymryd rhan mewn niferoedd o weithgareddau – ffordd arbennig i orffen y flwyddyn.

**Improvement Priorities 2022 - 2024**

- Continue to develop the New Curriculum
- Develop the Welsh Language: Raise standards in Welsh and operate the Welsh Language Strategy at a higher level.
- Develop reading, writing and oracy skills.
- Strengthen middle leader processes concentrating on teaching and learning.
- Improve attendance of vulnerable pupils.

**Provision for PE**

At key stage 3, there are 3 lessons of 50 minutes' in year 7 and year 8, and 2 lessons in year 9. At key stage 4, there are 2 lessons in year 10 and 2 in year 11.
The school has a number of successful teams and pupils selected for the teams show appropriate levels of commitment.

**Visits**

It was extremely pleasing to return to running activities and visits, which undoubtedly enrich the experiences of our learners. A number of visits were organised, such as to Bwthyn Ogwen for a week of outdoor activities for years 8 and 9. We also took part in many sporting competitions in various different sports, and of course held the annual Sports day. Without doubt the highlight was Opportunities Week to finish the year with the whole school off-timetable to participate in various different activities – a special way to finish the year.